
Y Pwyllgor Cyllid:

# Beth mae pobl yn ei feddwl am y trethi y maent yn eu talu yng Nghymru?

## PWY GYMERODD RAN

**ROEDD CYNRYCHIOLWYR O BOB UN O BUM RHANBARTH Y SENEDD YN CYMRYD RHAN**



Y pum prif ranbarth lle'r oedd y nifer mwyaf o ymatebion oedd

- Caerdydd
- Rhondda Cynon Taf
- Conwy
- Gwynedd
- Powys

**UN** AROLWG DWYIEITHOG — **692** YMATEBWYR

**WYTH** AROLWG BARN AR-LEIN DWYIEITHOG — **2,524** BLEIDLEISIAU

## PWYSIGRWYDD

Dywedodd **72 y cant** o bobl ei bod yn bwysig neu'n bwysig iawn bod gan Lywodraeth Cymru bwerau dros drethi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

> Rwy'n credu y dylai ein trethi ni fynd tuag at Gymru yn unig, a gobeithio, y bydd ein Llywodraeth wedi cynyddu ei phwerau trethu. Daliwch ati i wella Cymru a bywydau pawb sy'n byw yma.

## GWYBODAETH

Roedd **69 y cant** o ymatebwyr i'r arolwg yn dweud nad oeddent yn gwybod bod y dreth gyngor yn cael ei rheoli gan eu hawdurdod lleol.

Nid oedd **o leiaf hanner yr ymatebwyr i'r arolwg** yn gwybod bod ardrethi annomestig (y cyfeirir atynt weithiau fel ardrethi busnes), y Dreth Trafodiadau Tir na'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gyd yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru.

> Dylai helpu'r cyhoedd i ddeall rhagor am drethi datganoledig gynyddu eu hymwybyddiaeth o waith sefydliadau datganoledig gobeithio, a pham y dylent bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

## BARN


Dywedodd **61 y cant** o ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer dros ragor o drethi.

Dywedodd **25 y cant** o ymatebwyr i'r arolwg y byddai amrywiad o ran y Dreth Trafodiadau Tir o gymharu â Threth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr yn effeithio ar eu penderfyniad ynghylch ble y byddent yn dewis byw.

> Dylai'r Senedd Cymru cael power dros pob treth yng Nghymru
>
> The Welsh Parliament should have power over all taxation in Wales

Ar hyn o bryd gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £1 biliwn naill ai gan Lywodraeth y DU neu o ffynonellau eraill y gellir eu defnyddio i fuddsoddi yn seilwaith Cymru, er enghraifft i dalu am ysgolion neu ffyrdd.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a ddylai Llywodraeth Cymru gael terfyn anghyfyngedig ar fenthyca ar gyfer seilwaith, ac roedd.




**54 y cant** yn dweud "Dylai"

**39 y cant** yn dweud "Na ddylai"

**7 y cant** yn dweud nad oeddent yn gwybod

Dywedodd **59 y cant** o ymatebwyr yr arolwg "Byddwn yn hapus i dalu rhagor o dreth incwm yng Nghymru na'r rheini sydd yn Lloegr pe bai'r dreth ychwanegol hon yn cael ei chasglu yng Nghymru a'i gwario ar wasanaethau yng Nghymru"



Dywedodd **36 y cant** "Na, ni fyddwn yn hapus i dalu rhagor na'r hyn a delir yn Lloegr"

Dywedodd **5 y cant** nad oeddent yn gwybod.

> Rwy'n hapus i dalu trethi yng Nghymru os yw o fudd i Gymru gyfan ac nid Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd yn unig. Mae angen gwneud rhagor dros gymunedau'r cymoedd.

> Nid wyf yn ymddiried yng Nghaerdydd i wario'r arian yng Nghanolbarth Gwledig Cymru, oherwydd mewn 9 allan o'r 10 mlynedd diwethaf, Powys a gafodd y swm isaf o blith yr holl Gynghorau Sir - rydym yn cael ein hanwybyddu dro ar ôl tro.